**<u>Grwpiau Ffocws Atal Codymau a Dementia Go: Ymchwiliad Craffu ar Orfodaeth Gwastraff (08/02/19)</u>**

**26 Mynychwyr**

**<u>Cynhwysion / bocsys</u>**

- Nododd nifer fawr o'r grŵp eu bod wedi sylwi bod y staff sy'n gwagio'r cartgylchu yn gosod y blwch uchaf y tu mewn i'r blwch canol unwaith y mae'r cart wedi ei wagio, a gofynnwyd pam bod hyn yn digwydd. Nodwyd fod y bocs uchaf yn aml yn mynd yn sownd ac nid ydynt yn ddigon cryf i'w tynnu felly gofynnwyd a fyddai'n bosib i'r staff peidio â gwneud hyn? Awgrymwyd hefyd y gellid defnyddio sticer ar gyfer y rheiny nad ydynt am i'r cartgylchu gael ei gadael yn y ffordd yma ar ôl cael eu gwagio.
- Awgrym arall gan aelodau'r grŵp oedd y gellid cynnwys sticer / rhywbeth gweledol ar y cartgylchu a'r biniau i hysbysu'r staff casglu bod gan y cartrefi hyn broblemau meddygol / symudedd.
- Nododd nifer o unigolion nad ydynt yn gwybod sut i archebu biniau / cynhwysion ailgylchu newydd. Nid oeddent hefyd yn ymwybodol y gallant archebu blychau glas a chaeadau net.
- Nodwyd bod y biniau'n / cartgylchu'n fregus ac yn aml yn torri, a gofynnwyd faint mae hyn yn costio i'r Cyngor?
- Gofynnwyd un unigolyn os yw'n bosib cael mwy nag un bin gardd brown.

**<u>Deunyddiau Ailgylchu</u>**

- Nid oedd nifer yn siŵr o ble i roi rhai eitemau e.e. ym mha bos mae foil yn mynd? Gofynnwyd cwestiynau hefyd ynghylch cartonau, potiau blodau a phlastigion du.
- Nodwyd fod pawb yn y grŵp yn defnyddio'r bin gwastraff bwyd a'r bocsys ailgylchu.
- Codwyd nifer o gwestiynau ynglŷn â phlastigion meddal. Roeddent yn ymwybodol na ellir ailgylchu plastig meddal a gofynnwyd a oes gan y Cyngor unrhyw syniadau neu fentrau ar gyfer y rhain yn hytrach na gwaredu yn y bin gwastraff gweddilliol.
- Roeddent yn hoffi'r taflenni gwybodaeth wedi'u lamineiddio oedd ar gael yn y sesiynau ac roedd yr unigolion yn y grŵp DementiaGo yn teimlo bod y rhain yn arbennig o ddefnyddiol gan eu bod wedi colli eu cof tymor byr.